Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Taflen Wybodaeth: Acamprosate**

**Gwasanaeth Arbenigol Camddefnyddio Sylweddau Gwent**

## Ar gyfer beth y caiff ei ddefnyddio?

Lleihau chwant am alcohol mewn cleifion sydd wedi rhoi'r gorau i yfed, er mwyn helpu i barhau i ymatal rhag alcohol.

## Sut mae'n gweithio?

Mae gan Acamprosate strwythur tebyg i negeseuwyr cemegol ataliol (niwrogludwyr) yn yr ymennydd. Mae'r cemegau hyn yn gweithio drwy flocio mathau penodol o weithgarwch yr ymennydd, a chredir bod acamprosate yn gweithredu drwy ddwysau'r effeithiau hyn. Credir hefyd ei fod yn gwrthweithio gweithrediad rhai asidau amino - asidau sy'n anfon negeseuon cynhyrfol i'r ymennydd. Mae'r gweithredoedd hyn yn yr ymennydd yn helpu i leihau eich chwant am alcohol.

Dim ond ar ôl i chi roi'r gorau yn llwyr i yfed alcohol y mae Acamprosate yn effeithiol, a chaiff ei ddefnyddio ar y cyd â rhaglen gwnsela i'ch helpu i barhau i ymatal rhag alcohol. Mae'n bwysig sylweddoli y bydd angen i chi ddefnyddio eich penderfyniad a'ch ewyllys eich hun o hyd i osgoi dechrau yfed eto, a bydd cwnsela'n helpu gyda hyn.

## Sut ydw i'n ei gymryd?

- Dylid cymryd tabledi Campral EC gyda neu ar ôl bwyd. Dylid llyncu'r tabledi'n gyfan, gyda gwydraid o ddŵr. Ni ddylid torri, cnoi na malu'r tabledi, gan y gall hyn niweidio 'cotiau enterig' arbennig y tabledi.
- Y dos arferol i oedolion sy'n pwyso 60kg neu fwy yw dau dabled i'w cymryd deirgwaith y dydd gyda phrydau bwyd.

- Fel arfer, caiff pobl sy'n pwyso llai na 60kg bedwar tabled y dydd - dau yn cael eu cymryd gyda brecwast, un gyda chinio ac un gyda'r pryd nos.
- Dylid dechrau triniaeth gyda thabledi Campral EC cyn gynted â phosibl ar ôl i chi roi'r gorau i yfed alcohol yn llwyr ac fel arfer bydd yn para blwyddyn.

**Rhybudd!**

- Mae'n bwysig bod cwnsela'n gefn i'r driniaeth hon. Nid yw'r feddyginiaeth hon yn cynnig iachâd gwyrthiol a fydd yn eich atal rhag eisiau yfed byth eto. Bydd yn cymryd amser, cefnogaeth, ewyllys a phenderfyniad i ailaddasu i beidio ag yfed a dysgu byw heb alcohol.
- Nid yw'r feddyginiaeth hon yn lleddfu symptomau diddyfnu o alcohol ac nid yw'n atal yr effeithiau niweidiol fyddai'n dilyn parhau i gamddefnyddio alcohol.
- Fydd dal i yfed alcohol pan yn cymryd y feddyginiaeth hon ddim yn eich gwneud yn sâl, ond bydd yn peryglu llwyddiant y driniaeth.

**Sgil-effeithiau**

Gall meddyginiaethau a'u sgil-effeithiau posibl effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd. Dyma rai o'r sgil-effeithiau rydyn ni'n gwybod eu bod yn gysylltiedig â'r feddyginiaeth hon. Os yw sgil-effaith yn cael ei nodi yma, nid yw'n golygu y bydd pawb sy'n defnyddio'r feddyginiaeth hon yn dioddef y sgil-effaith honno nac unrhyw sgil-effaith arall.

**Cyffredin iawn (effeithio ar fwy nag 1 o bob 10 person)**

- Dolur rhydd

**Cyffredin (effeithio ar rhwng 1 o bob 10 ac 1 o bob 100 o bobl)**

- Poen yn yr abdomen.
- Chwydu.
- Cyfog.
- Gwynt.
- Brech croen neu gosi.
- Llai o awydd rhyw.

**Anghyffredin (effeithio rhwng 1 o bob 100 ac 1 o bob 1000 o bobl)**

- Mwy o awydd rhyw.

**Prin iawn (effeithio ar lai nag 1 o bob 10,000 o bobl)**

- Adweithiau alergaidd fel brech croen difrifol, anaffylacsis, neu chwyddo'r gwefusau, y tafod a'r gwddf (angioedema).

Efallai na fydd y sgil-effeithiau a restrir uchod yn cynnwys yr holl sgil-effeithiau sydd wedi eu hadrodd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw risgiau posibl eraill sy'n gysylltiedig â'r feddyginiaeth hon, darllenwch y wybodaeth a ddarperir gyda'r feddyginiaeth neu holwch eich meddyg neu'ch fferyllydd.

**Sut y gall y feddyginiaeth hon effeithio ar feddyginiaethau eraill?**

Mae'n bwysig dweud wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd pa feddyginiaethau rydych eisoes yn eu cymryd, gan gynnwys y rhai a brynir heb bresgripsiwn a meddyginiaethau llysieuol, cyn i chi ddechrau triniaeth gyda'r feddyginiaeth hon. Yn yr un modd, holwch eich meddyg neu'ch fferyllydd cyn cymryd unrhyw feddyginiaethau newydd pan yn cymryd yr un yma, i wneud yn siŵr bod y cyfuniad yn ddiogel.

Nid yw'n hysbys bod y feddyginiaeth hon yn effeithio ar feddyginiaethau eraill.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English".**